

## ❖ EMYN MAWL MAIR: BREUDDWYD DUW

**Luc 1:46–55**

‘... the treetops glisten, the children listen to hear sleigh bells in the snow.’ (‘White Christmas’ gan Irving Berlin). Breuddwydio am Nadolig dan drwch o eira wnaeth Irving Berlin ym 1942; beth yw gwrthrych ein breuddwydion ni y Nadolig hwn? Beth ddywed ein breuddwyd Nadolig amdanom tybed? Beth ddywed ein breuddwyd Nadolig am beth sydd, a beth sydd ddim, yn bwysig i ni dros yr ŵyl? Oni aethom yn ddilornus o’r freuddwyd, yn ddrwgdybus o’r breuddwydiwr? Mae’r Beibl yn drwch o freuddwydion: Jacob (Genesis 28:10–22), Joseff (Genesis 40:1–8), Pharo (Genesis 41:14–24), Job (Job 4:15–17, 7:13–14 a 42:7–9), Nebuchadnesar (Daniel 4), Solomon (1 Brenhinoedd 3:3–10), Seryddion Mathew (Mathew 2:12) a Joseff, gŵr Mair (Mathew 2:19). Yr un neges sydd i’r breuddwydion hyn i gyd: mae Duw gyda’i bobl! ‘Gwyddom,’ meddai Paul, ‘fod Duw, ym mhob peth, yn gweithio er daioni gyda’r rhai sy’n ei garu...’ (Rhufeiniaid 8:28a).

**Breuddwyd Jacob:**

‘Breuddwydiodd ei fod yn gweld ysgol wedi ei gosod ar y ddaear, a’i phen yn cyrraedd i’r nefoedd, ac angylion Duw yn dringo a disgyn ar hyd-ddi.’ (Genesis 28:12). Os mai yn y nefoedd gyda Duw y mae’r angylion, onid disgyn a dringo ddylai’r angylion fod yn eu gwneud? Neges awdur Genesis yw bod Duw gyda ni, ar waith yn ein plith, ac, felly, ‘dringo a disgyn’ a wna’r angylion. I gadarnhau hynny, meddai Duw wrth Jacob: ‘Wele, yr wyf fi gyda thi, a chadwaf di ple bynnag yr ei...’ (Genesis 28:15a). Ym mhob un o freuddwydion y Beibl, cawn gipolwg ar freuddwyd Duw – Ef gyda ni, a ni gyda’n gilydd.

**Mair a Joseff:**

Yn Efengyl Mathew cawn gofnod o ymateb Joseff i feichiogrwydd ei ddyweddi Mair, ac ymateb Duw i’r ymateb hwnnw: ‘Ond wedi iddo gynllunio felly, dyma angel yr Arglwydd yn ymddangos iddo mewn breuddwyd, a dweud, “Joseff fab Dafydd, paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd y mae’r hyn a genhedlwyd ynndi yn deillio o’r Ysbyrd Glân. Bydd yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu... Immanuel... Y mae Duw gyda ni.”’ (Mathew 1:20–23). Cymerodd Joseff Mair yn wraig iddo. Ildiodd i rym a thynfa breuddwyd fawr Duw. Yn Efengyl Luc cawn gofnod o ymateb Mair i gais Gabriel. Meddai’r angel, ‘Paid ag ofni, Mair, oherwydd cefaiist ffafr gyda Duw; ac wele, byddi’n beichiogi yn dy groth ac yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu’ (Immanuel) (Luc 1:30–31). ‘Dyweddodd Mair, “... bydded i mi yn ôl dy air di.”’ (Luc 1:38).

**Beth sydd a wnelo hyn ag Emyr Mawl Mair?**

Emyr Mawl Mair yw breuddwyd Duw ar gân. Ef gyda ni, a ni gyda’n gilydd. Dysgu person o dalent a wneir ond deffro person o athrylith. Cafodd Mair y deffroad hwnnw, a dihunwyd ei hathrylith ynndi! Dihunwyd athrylith y ferch ifanc hon, ac ym merw a thrafferth bywyd ei chyfnod canodd Mair freuddwyd fawr Duw. Cyn y gellir gwneud argraff ddofn ar y byd, rhaid wrth y person iawn a’r adeg iawn. Er mwyn newid y byd, nid digon y person a’r lleoliad, rhaid hefyd wrth y tragwyddol. Yn Mair, fe gyferfydd y tri: Mair fach, dlawd, ddibwys, ddistadl; Bethlehem Effrata bychan, dibwys, distadl a breuddwyd anferthol Duw! ‘Y mae fy enaid yn mawrygu yr Arglwydd, a gorfoleddodd fy ysbyrd yn Nuw, fy Ngwardwr... Gwnaeth rymuster â’i fraich, gwasgarodd y rhai balch eu calon; tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distadl...’ (Luc 1:46–47, 51–52). Ond bu i ni osod gofynnod yn lle’r ebychnod!... gwasgaru’r rhai balch eu calon?... tynnu tywysogion oddi ar eu gorseddau? ...dyrchafu’r rhai distadl? Aethom ymhellach: Fe drig y blaidd gyda’r oen?... Fe orwedd y llewpard gyda’r myn? (seiliedig ar Eiseia 11:6). ‘Pa feddwl, pa ’madrodd, pa ddawn, pa dafod all osod i maes’ (John Williams 1728–1806; *C.Ff.* 347). Faint y trychineb a ddaw pan mae pobl Dduw yn llacio’u gafael ar freuddwyd Duw.

Nid oes dim y medrwn ni ei wneud i newid y byd!... Fel pob chwedl, nid yw hyn yn wir. Mae gennym freuddwyd ac ymhlyg yn y freuddwyd hon mae pob un breuddwyd o’n heiddo – Breuddwyd Duw. Llwyddodd Mair fach i droi’r freuddwyd hon yn gân. Un o anhepgorion ffydd yw ymuno yn y gân hon, a chanu mewn ffydd, gobaith a chariad Emyr Mawl Mair. Er ei lladd a’i chladdu mae Breuddwyd Duw yn mynnu codi a chodi fyth yn gymorth, yn gysur, yn gynhaliath ac yn her i ni a’n tebyg. Beth yw gwrthrych ein breuddwyd y Nadolig hwn? Plethwn ein breuddwydion i freuddwyd Duw a gwau breuddwyd Duw i batrwm ein byw a’n bod, fel ein bod ni, pobl Dduw yn... gwasgaru’r rhai balch eu calon... a thynnu tywysogion oddi ar eu gorseddau... a... dyrchafu’r rhai distadl (addasiad o Luc 1:51–52). Ynom, a thrwom, ac er ein gwaethaf... ‘Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain...

Daw dydd ni bydd mwy y rhai mawr.’ (*Waldo Williams*)

**Owain Llyr Evans**